**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

21 Awst 2025

**Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Annwyl Andrew,

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ynghylch pumed flwyddyn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Nododd y papur yr amserlenni arfaethedig ar gyfer nifer o Filiau, gan gynnwys Bil ar reoleiddio llety ymwelwyr yng Nghymru.

Ers hynny, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno mewn egwyddor y dylid cyfeirio'r Bil hwnnw at Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at ddibenion gwaith craffu yng Nghyfnod 1.

Er hwylustod, rwyf wedi amgáu amserlen ddangosol ar gyfer y Bil yn Atodiad A.
Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi eich barn inni ynghylch yr amserlen arfaethedig.
Cofion cynnes,

Elin Jones

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad A: Amserlen enghreifftiol ar gyfer y Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr

| Carreg filltir | Dyddiad |
|---|---|
| Cyflwyno'r Bil yn y Senedd | 20 Hydref 2025 |
| Terfyn amser ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor | 19 Rhagfyr 2025 |
| Diwedd Cyfnod 1 - Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol a chynnig ar benderfyniad ariannol (os oes angen) | 13 Ionawr 2026 |
| Dechrau Cyfnod 2 | 14 Ionawr 2026 |
| Y dyddiad cynharaf posibl ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 | 4 Chwefror 2026 |
| Diwedd Cyfnod 2 - terfyn amser ar gyfer ystyriaethau Cyfnod 2 y Pwyllgor | 13 Chwefror 2026 |
| Dechrau Cyfnod 3 | 16 Chwefror 2026 |
| Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn | 10 Mawrth 2026 |
| Cyfnod 4 yn y Cyfarfod Llawn | 17 Mawrth 2026 |
| Cydsyniad Brenhinol | Ebrill 2026 |